



Er gwaethaf y tywydd cyfnewidiol – mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen... ac mae'r dathliadau'n llwyddiant. Mae'n ffoto pennyn yn giplun o'r 2500 o bobl a ddathlodd y Jiwbil gyda ni. Goleuodd begwn 6troedfedd y nos ar Foel Famau gyda cherddoriaeth, dawnsio a chanu i'w ganlyn. Gwylwch y ffilm ar dudalen Facebook Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych. *Diolch i Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r holl gyfranwyr a phobl a ymunodd â ni am noson ardderchog.*

Rhaid sôn hefyd am ein gwirfoddolwyr gwych, myfyrwyr profiad gwaith a chyfranogwyr wythnos gymunedol Ysgol yr Alun a fu'n gweithio'n galed gyda ni yng nghefn gwlad, er gwaethaf y cenllif o law. Diolch ichi.

Cliciwch yma i ddarllen ein Newyddion yn Saesneg

Gwelliannau llwybrau

Mae gwaith ar lwybrau Milltiroedd Cymunedol yn dod â gwelliannau derbynol iawn i hawliau tramwy ar draws y Sir. Mae dwy daith gerdded newydd yn y gyfres Milltiroedd Cymunedol wedi'u cwblhau'n ddiweddar, sef Llwybr Tremeirchion a Llwybr Bryn Heulog Llangollen. Mae taflenni am y llwybrau ar gael ar dudalennau cerdded gwefan Cefn Gwlad Sir Ddinbych.



Syndod cyffrous gweld dyfrgi!

Roedd aelodau o'r cyhoedd ar y Reid Trên Bio amrywiaeth ym mis Mehefin wrth eu bodd o weld dyfrgi'n hela am fwyd yn Afon Dyfrdwy ger Gorsaf Carrog.

Datgelu'r Bryniau

Trawsnewidiwyd un o'r hen adeiladau yn Loggerheads yn drêr clyweled Uwch-Dechnoleg i ymwelwyr.



Mynd yn rhyngwladol

Bu Fiona Gale, Archeolegydd y Sir, ac Erin Robinson o Brosiect y Grug a'r Caerau yn darlledu dros yr Iwerydd i'r British History Podcast y mis hwn! Trwy rym technoleg fodern, roedd darlledwr y podlediad yn gallu cyfweld y ddwy archeolegwraig o'i swyddfa yn Portland, Oregon yng Ngogledd America wrth i Fiona ac Erin eistedd wrth gyfrifiadur yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Cafodd Fiona ac Erin eu cyfweld ynghylch treftadaeth Oes yr Haearn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r gwaith y bu Prosiect y Grug a'r Caerau, a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, yn ei wneud dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r British History Podcast yn adrodd hanes Prydain yn gronolegol, gan ganolbwyntio ar y ddrama ddynol sy'n digwydd mewn hanes ac mae i'w gael ar <http://thebritishhistorypodcast.com/>. I gael gwybod mwy am Brosiect y Grug a'r Caerau ewch i www.heatherandhillforts.co.uk

Popeth sydd ei angen arnoch i chwilota cefn gwlad

Mae Canolfan Bryniau Clwyd ar agor bob dydd yn awr ym Mharc Gwledig Loggerheads. Gwybodaeth, llyfrau, mapiau ac anrhegion gwyh ac offer – i gyd gyda gwên Gwasanaeth Cefn Gwlad.

Baner Werdd i Loggerheads

Mae Parc Gwledig Loggerheads wedi sicrhau statws Baner Werdd eto am ei gyfraniad at y gymuned a'r amgylchedd.



Helpu i leihau effeithiau llifogydd

Mae llifogydd wedi bod yn broblem i Loggerheads ers tro byd, ond fe all cyllid o gronfa Cynnal a Chadw Adeiladau Sir Ddinbych liniaru rhywfaint o'r difrod. Dylai wyneb newydd ar y llawr y tu allan i'r hen adeiladau sianelu'r dwr yn ôl i'r afon, tra dylai gwaith i ailadeiladu darn o wal yr afon yn yr hydref leihau'r dwr sy'n gollwng i'r gerddi te. Hei lwc!

Taith Ddysgu i Goedwig Bowland

Aeth staff Cefn Gwlad ag aelodau Grwp Twristiaeth Bryniau Clwyd i'r Seminar Twristiaeth Gynaliadwy yn AHNE Coedwig Bowland i weld yr hyn a gyflawnwyd ar ôl 8 mlynedd gyda'r Siarter Ewroparc. Gwyliwch fan hyn am newyddion newidiadau yn dilyn ymlaen o'r hyn y bu inni ei ddysgu.



Llwybr Arfordir Cymru

Mae cerdded rhan Sir Ddinbych Llwybr Arfordir Cymru yr un mor angenrheidiol i sicrhau ei lwyddiant â chyfrannu at y lansiad – a ddigwyddodd yng Nghastell Y Fflint.

Môr-Wenoliaid Bach yn dioddef gan y tywydd a llanwau uchel

Mae wardeinio o Wawr hyd Fachlud yn nythfa'r môr-wenoliaid bach yn Nhwyni Gronant yn parhau er gwaethaf tywydd echrydus a llanwau anarferol o uchel, gwyliwch y fan hyn am newyddion ynghylch sut y mae'r cywion bach yn dod yn eu blaen.

Bysus Newydd ar gyfer yr haf

Mae Bws Crwydro Dyffryn Dyfrdwy a Bryniau Clwyd wedi'i gwella i helpu trigolion ac ymwelwyr i gerdded yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yma. *Cerddwch un ffordd a chael y bws yn ôl.* Un o'r ychwanegiadau newydd yw Liff Llangollen AM DDIM, sy'n eich galluogi i gael y bws i'r Ponderosa a cherdded yn ôl i Llangollen. Mae cysylltiadau hefyd â Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Mae amserlenni ar gael o Ganolfan Bryniau Clwyd, Loggerheads, siopau lleol sy'n gwerthu'r daflen, ar ein gwefan neu ffoniwch 01352 810586 am gopi.

Mae Bws Gwennol Moel Famau i Loggerheads yn ôl ar gyfer y gwyliau

Helpwch ni a defnyddiwch y bws gwennol AM DDIM fel dewis arall yn lle parcio peryglus ac anghyfreithlon ar yr A494. Gellwch hyd yn oed gael diod am ddim yng Nghaffi Florence gyda'ch tocyn. Mae'n rhedeg bob dydd trwy wyliau'r haf.

Gadael Moel Famau		Gadael Loggerheads
09.00		09.30
10.00	Galw	10.30
11.00	yng	11.30
12.00	Nghoed	12.30
13.30	Moel	14.00
14.30	Famau	15.00
15.30		16.00
16.30		17.00

Diweddariad ar Brosiect Pathewod Gogledd Cymru

Ffarwel trist, diolch a phob lwc i Deborah, Amy ac Erin sydd wedi neu sydd ar fin ein gadael am borfeydd newydd.....

Digwyddiadau i ddod

Diwrnod hwyl i'r teulu yng nghoedwig Moel Famau.

Gall teuluoedd ddod a mwynhau gweithgareddau hwyl ardderchog yn y goedwig, yn cynnwys rhwydo mewn pyllau a sgiliau byw yn y gwyllt gyda cherfio llif gadwyn ac adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos yng nghoedwig Moel Famau, ddydd Sadwrn 21ain Gorffennaf o 10am tan 4pm. Bydd yn gyfle gwyh i bobl o bob oed ddod a dysgu mwy am ein coedwigoedd a'r manteision eang a ddaw yn eu sgil. Bydd ymwelwyr yn gallu defnyddio'r bws gwennol am ddim o Foel Famau i Barc Gwledig Loggerheads hefyd i brofi'r digwyddiad hud a lledrith canoloesol ac ymuno â rhai sy'n ail-greu'r gorffennol o grwp Oes y Tywysogion, sy'n gwersylla am y penwythnos.

Cloddio i'r Gorffennol

Mae'r Athro Gary Lock o Brifysgol Rhydychen yn cloddio ym mryngaer Oes Haearn Moel y Gaer Bodfari, sydd mewn perchenogaeth breifat. Ymunwch â ni ar gyfer taith gerdded dywysedig i ymweld â'r safle, ar Orffennaf 24^{ain}, yn y prynhawn, a diwrnod agored ar ddydd Llun Gorffennaf 23^{ain}. Bydd y teithiau cerdded yn cychwyn ym Modfari am 2 y prynhawn, cysylltwch â Fiona Gale am fwy o wybodaeth, fiona.gale@sirddinbych.gov.uk 01824 708262.

Cyfeiriannu

A ellwch chi gwblhau her y cwrs cyfeiriannu newydd yng ngerddi hanesyddol hyfryd Plas Newydd?

Ymunwch â ni ar ddydd Iau 9fed Awst, 10am-4pm a chymryd rhan. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim i'w fynychu ac yn addas ar gyfer teuluoedd. Methu dod ar y dyddiad? Bydd mapiau cyfeiriannu ar gael o'r Stablau ym Mhlas Newydd ac ar wefan Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Dathlu Penwythnos Bryniau Clwyd!

Ar 29ain a'r 30ain Medi byddwn yn dathlu popeth ynglyn â Bryniau Clwyd! Dewch i ymweld â ni dros y penwythnos yng Nghoed Moel Famau am hwyl i'r teulu, reidiau beic yn y goedwig, hen gerbydau, anifeiliaid, archeoleg arbrolfol a mwy.

Mae'r penwythnos yn dathlu pum mlynedd Prosiect y Grug a'r Caerau, sy'n dod i ben eleni. Mae popeth sydd ar ddangos yn rhan o Fryniau Clwyd, yn cynnwys alpacaod sy'n pori'r mynyddoedd, gwenyn sy'n gwneud mêl Moel Famau a Chrefftau Hynafol yn gwneud efydd mwyndoddi fel y byddent wedi'i wneud yn y brynau 4000 o flynyddoedd yn ôl!

Bydd y digwyddiad yn rhedeg o 10.30am tan 3.30pm ac mae'n rhad ac am ddim.



<http://www.denbighshirecountryside.org.uk/events/>

Mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn gwneud ceisiadau am gyllid Grant yn barhaus i sicrhau bod prosiectau'n dal i wella cefn gwlad ar gyfer bioamrywiaeth, y dirwedd, y gymuned ac ymwelwyr. Eleni rydym wedi llwyddo i ddenu dros £400,000. Byddem yn hoffi diolch i'n partneriaid a'n cyllidwyr am eu gwaith a'u cyfraniad aruthrol. Mae rhai wedi'u rhestru isod:

Prosiect Cerdded gydag Offa a Phrosiect Twristiaeth Werdd gyda chyllid trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 sy'n cael ei ran-ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Cymunedau A Natur, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Croeso Cymru, Canolfan Ragoriaeth Beicio

Cynllun Gwellu Hawliau Tramwy

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Cynghorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam